***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1813

# Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynllluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2005

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynllluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) (Diwygio) 2005 a deuant i rym ar 31 Gorffennaf 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynllluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) 2003**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynllluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) 2003(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4, ym mharagraff (1)(a) yn lle'r gair "bedwerydd" rhowch y gair "drydydd", ac yn lle'r gair "bedair" yn y paragraff hwnnw ac ym mharagraff (1)(b) rhowch y gair "dair".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

5 Gorffennaf 2005

(**1**) O.S. 2003/893 (Cy.113).
(**2**) 1998 p.38.